# Briff CLlLC

## Adolygiad Annibynnol o Wasanaeth Synhwyraidd a Chyfathrebu De Ddwyrain Cymru (SenCom)

Dr Chris Llewelyn, Prif Weithredwr
20 Mai 2019
**chris.llewelyn@wlga.gov.uk**

---

### Cylch Gwaith ar gyfer yr Adolygiad Arfaethedig o Wasanaeth SenCom

Mae SenCom a'i ragflaenwyr wedi bod yn darparu gwasanaethau synhwyraidd arbenigol ers ymhell cyn i'r Llywodraeth Leol gael ei had-drefnu ddiwethaf. Ar hyn o bryd, mae SenCom yn darparu gwasanaethau i gynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Dros y cyfnod hwn, mae newid sylweddol wedi bod i'r ffordd y mae'r dysgwyr hyn yn cael eu cefnogi gyda ffocws clir ar ddysgwyr yn mynychu eu hysgolion lleol gyda phecyn cymorth priodol yn cael ei roi ar waith gan y gwasanaeth. Mae nifer y dysgwyr sydd angen lleoliadau oddi cartref yn is nag erioed.

Er bod y gwasanaeth wedi darparu ystod eang o wasanaethau i blant, eu teuluoedd ac ysgolion yn llwyddiannus dros y cyfnod hwn, mae bellach yn amser i edrych ar ba mor dda yw sefyllfa'r gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion yr holl bartneriaid yn y dyfodol.

Mae'r pump Arweinydd Cyngor wedi ymrwymo i adolygu'r gwasanaeth drwy CLlLC a gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru. Bydd yr adolygiad annibynnol hwn yn:

- Darparu eglurder ar ystod, maint ac effaith y gwasanaeth a ddarperir gan bob awdurdod lleol. Er bod y gwasanaeth yn cynnig cymorth arbenigol i blant, teuluoedd a staff ysgol, bydd yr adolygiad yn ystyried a yw'r rhain yn ofynnol o ran canllawiau Llywodraeth Cymru, yn gymesur, yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu sgiliau annibyniaeth ac a yw'r gwasanaeth yn darparu cynnig dysgu proffesiynol i staff yn yr ysgol sydd yn ddigonol o ran ystod.
- Ystyried cydbwyllgor a fydd yn darparu trefniadau llywodraeth ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol. *(Nid oes cydbwyllgor erioed wedi'i sefydlu, ni ddylai bod unrhyw awgrym o hynny)*
- Adolygu'r wybodaeth reoli y mae partneriaid yn ei derbyn ac awgrymu gwelliannau er mwyn sicrhau bod partneriaid yn llwyr ymwybodol yn rheolaidd o ystod ac effaith y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.
- Ystyried gwerth am arian y gwasanaethau unigol a chyfunol a ddarperir ac ystyried y costau mewn perthynas â gwasanaethau tebyg yng Nghymru.
- Adolygu'r sail/ fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu costau i Awdurdodau Lleol i benderfynu a yw'n deg a phriodol.

Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried:
• Parhad y cynnig gwasanaeth – o ystyried natur arbenigol y staff a gyflogir yn y gwasanaeth a'r nifer isel o staff sydd yn cael eu hyfforddi ar draws y DU, sut all y gwasanaeth fod yn y sefyllfa orau i sicrhau y gall barhau i ddiwallu anghenion dysgwyr dros y pum mlynedd nesaf.
• Cyd-gytundeb newydd i danategu gwasanaeth yn y dyfodol yn amlinellu'r cynnig gwasanaeth a'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y dyfodol.

## Methodoleg

Bydd ymgynghorydd annibynnol yn cael ei gomisiynu i gynnal yr adolygiad hwn; bydd disgwyl i'r ymgynghorydd feddu ar arbenigedd neu brofiad o wasanaethau synhwyraidd a threfniadau llywodraethu da.

Rhagwelir y bydd yr ymgynghorydd penodedig yn cynnal trafodaethau rhagarweiniol gyda phob arweinydd awdurdod lleol neu aelod cabinet arweiniol perthnasol ac uwch swyddogion penodedig, er mwyn clywed eu barn am y gwasanaeth, ei gryfderau, ei wendidau a'r meysydd posibl y gellir eu datblygu. Disgwylir y byd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal o fewn tair wythnos i ddechrau'r adolygiad.

O ystyried natur y cynnig gwasanaeth, bydd cyfleoedd i fudd-ddeiliaid ymgysylltu â'r adolygiad. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltiad â:

- Phob Ysgol – bydd yr ymgynghorydd yn ceisio barn staff mewn ysgolion arbennig a safleoedd adnoddau yn benodol sydd ymwneud â'r gwasanaeth, ond bydd croeso i bob aelod o staff ysgol leisio barn.
- Rhieni – dylai hyn gynnwys nifer o grwpiau ffocws strwythuredig o rieni o bob ardal Awdurdod Lleol; arolwg holiadur dienw o bob teulu sy'n derbyn y gwasanaeth.
- Bydd rhieni yn cael eu gwahodd i roi sylwadau ar yr hyn sy'n werthfawr iddynt a beth maent yn feddwl sydd angen ei wella o fewn y cynnig gwasanaeth presennol.
- Staff SenCom presennol;
- Partneriaid trydydd sector / grwpiau cynrychiadol;
- Partneriaid GIG - yn cynnwys paediatregwyr, clywedegwyr a therapyddion lleferydd sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth.

## Terfynau Amser

Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Arweinwyr, bydd yr adolygiad yn dechrau cyn gynted â phosibl a bydd yn dod i ben erbyn diwedd mis Mehefin 2019.

Rhagwelir y bydd y casgliad data gan fudd-ddeiliaid wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai. Bydd yr adroddiad terfynol ar gael erbyn diwedd mis Mehefin 2019 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Arweinwyr i'w drafod ar ddyddiad i'w gadarnhau.

# WLGA Briefing

## Independent Review of the Sensory and Communication Service for South East Wales (SenCom)

Dr Chris Llewelyn, Chief Executive
20th May 2019
**chris.llewelyn@wlga.gov.uk**

---

**Remit for the Proposed Review of the SenCom Service**

SenCom and its predecessor services have been providing specialist sensory services since well before the last Local Government reorganisation. Sencom currently provides services for Blaenau Gwent, Caerphilly, Monmouthshire, Newport and Torfaen councils.

Over this time there has been a significant change to the way these learners are being supported with a clear focus on learners attending their local schools with an appropriate package of support being put in place by the service. The numbers of learners requiring placements away from home is at its lowest level ever.

While the service has provided a wide range of services to children, their families and schools successfully over this period, it is now timely to look at how well the service is placed to meet the needs of all partners going forward.

The five Council Leaders have given a commitment to review the service through the WLGA and with the support of Welsh Government funding. This independent review will:

- Provide clarity on the range, volume and impact of service provision in each local authority. While the service offers specialist support to children, families and school staff, the review will consider whether these are required in terms of WG guidance, proportionate, sufficiently focused on developing independence skills, and whether the service provides a professional learning offer for school-based staff that is sufficient in range.
- Consider joint committee that will provide governance for the service going forward. *(There has been no joint committee, there should be no implication there has been)*
- Review the management information that partners receive and suggest improvements so partners are regularly fully aware of the range and impact of services being delivered.
- Consider the value for money of the individual and collective services provided and consider the costs in relation to similar services in Wales.
- Review the basis/formula upon which costs are allocated to Local Authorities to determine whether it is equitable and appropriate.

The review will also consider:

- Continuity of the service offer - given the specialist nature of the staff employed in the service and the low numbers of staff being trained across the UK, how can the service be best placed to ensure it can continue to meet the needs of learners over the next five years.
- A new joint agreement to underpin a future service outlining the service offer and the appropriate governance arrangements for the future.

## Methodology

An independent consultant will be commissioned to undertake this review; the consultant would be expected to have an expertise or experience both of sensory services and good governance.

It is anticipated that the appointed consultant will conduct preliminary discussions with each local authority leader or relevant lead cabinet member and their nominated senior officers, to hear their views of the service, its strengths, its weaknesses and potential areas for development. It is expected that these meetings will all happen within three weeks of commencement of the review.

Given the nature of the service offer there will be opportunities for all stakeholders to engage in the review. This will include engagement with:

- All schools - the consultant will particularly seek the views of staff in special schools and resource bases that the service works with, but all school staff will be invited to submit their views.
- Parents - this should include a number of structured focus groups of parents drawn from each LA area; an anonymised questionnaire survey of each family receiving the service.
- Parents will be invited to comment on what they value and what they think needs to be improved in the current service offer.
- Existing SenCom staff;
- Third sector partners / representative groups;
- NHS partners - including paediatricians, audiologists and speech therapists working with the service

## Timescales

Subject to Leaders' approval, the review will begin as soon as possible and will conclude by the end of June 2019.

It is anticipated that all data collection from stakeholders will be complete by the end of May. The final report will be available by the end of June 2019 and will be presented to Leaders for discussion at a date to be confirmed.